



Community
Pharmacy Wales
Fferylliaeth
Gymunedol Cymru

DATGANIAD I'R WASG GAN FFERYLLIAETH GYMUNEDOL CYMRU

Embargo i'w Ryddhau Tan ddydd Iau 16 Rhagfyr am 00:01 GMT

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn croesawu'r fframwaith cytundebol newydd i gynnig ystod estynedig o wasanaethau

Heddiw (16 Rhagfyr), mae Cadeirydd Fferylliaeth Gymunedol Cymru, Mark Griffiths, wedi croesawu'r diwygiadau sylweddol i'r fframwaith cytundebol fferylliaeth gymunedol newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd Mark Griffiths "*Mae fferyllwyr cymunedol wedi dadlau ers blynyddoedd lawer y gallent wneud mwy o gyfraniad i anghenion GIG Cymru a'r boblogaeth drwy ddarparu ystod ehangach o wasanaethau clinigol.*

"Bydd y fframwaith newydd yn gweld pob fferyllfa gymunedol ledled Cymru yn mabwysiadu dull cytundebol newydd sy'n nodi dull cydweithredol, arloesol a blaengar o ddarparu gofal fferyllol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar dimau fferylliaeth gymunedol i ddiwallu anghenion y GIG a phobl yng Nghymru nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."

Wedi'i gyhoeddi gan y Gweinidog Iechyd, Eluned Morgan AS, bydd y fframwaith yn cyflwyno gwasanaeth fferylliaeth gymunedol clinigol cenedlaethol sy'n galluogi pob fferyllfa i ddarparu dulliau atal cenhedlu, triniaeth ar gyfer mân anhwylderau cyffredin, a mynediad at feddyginiaethau ailadroddus mewn argyfwng. Mae'r cytundeb hefyd yn cynnwys cynlluniau i gyflwyno gwasanaeth rhagnodi fferylliaeth ledled Cymru a fydd yn caniatáu i fferyllwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i drin ystod estynedig o gyflyrau sydd ar hyn o bryd yn ofynnol i bobl ymweld â'u meddyg teulu.

Bydd y newidiadau'n golygu y bydd gan gleifion wasanaethau GIG hygyrch a chyfleus yn nes at adref a fydd yn ei dro yn rhyddhau gwasanaethau meddygon teulu a gwasanaethau eraill y GIG i gleifion ag anghenion mwy cymhleth.

DATGANIAD I' R WASG

Croesawodd Russell Goodway, Prif Weithredwr Fferylliaeth Gymunedol Cymru y newyddion gan ddweud "*Dangosodd pandemig Covid-19 yn glir fod gan fferyllfeydd cymunedol fwy o rôl i'w chwarae o ran darparu ystod ehangach o wasanaethau ac mae CPW yn falch iawn o fod wedi gallu cydweithio â Llywodraeth Cymru, yn ystod cyfnod heriol i ddatblygu fframwaith cytundebol newydd ar gyfer fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru a fydd yn gwneud y fferyllfa leol yn fan galw cyntaf ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau clinigol sy'n ymdrin â llu o gyflyrau sydd ar hyn o bryd yn gofyn am apwyntiad meddyg teulu.*"

"Mae'r cytundeb hwn yn argoeli'n dda ar gyfer y rhwydwaith fferylliaeth gymunedol ledled Cymru a bydd yn osgoi'r peryglon sy'n wynebu cydweithwyr yn Lloegr lle mae cyllid ar gyfer fferyllfeydd cymunedol wedi'i dorri."

Mae'r cytundeb yn cynnwys diwygiadau eang i'r CPCF, gydag ymrwymadau i ddarparu gwasanaethau clinigol, datblygu'r gweithlu, gwella ansawdd a diogelwch ac integreiddio fferylliaeth gymunedol yn agosach o fewn clystyrau gofal sylfaenol. Yn bwysig, mae'r newidiadau'n cael eu hategu gan ddiwygiad sylweddol o gyllid CPCF i gymell a gwobrwyo fferyllfeydd sy'n gwneud mwy o'r pethau sydd eu hangen ar y GIG.

I ddechrau, bydd fferyllwyr yn gallu rhagnodi meddyginiaethau ar gyfer afiechydon aciwt fel clefyd y llwybr wrinol a heintiau llwybr anadlu uchaf, a hefyd yn rhagnodi dulliau atal cenhedlu arferol.

Bydd cyllid hefyd ar gael i gefnogi fferyllwyr sy'n ymgymryd â hyfforddiant rhagnodi annibynnol a hyfforddiant technegydd fferyllol cyn cofrestru.

Diwedd

Nodiadau i Olygyddion

I gael rhagor o wybodaeth am y stori hon, cysylltwch â Rhodri ab Owen ar ran Fferylliaeth Gymunedol Cymru ar rhodri@camlas.cymru.

Datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd ar ran Fferylliaeth Gymunedol Cymru, 2 Caspian Point, Caspian Way, Cardiff CF10 4DQ

Ffôn: 029 2044 2070

Ebst: info@cpwales.org.uk

DATGANIAD I' R WASG